Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 362

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Arian tuag at raglen ranbarthol Troseddwyr Cam-drin Domestig 2024/25

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**
Ymhellach i DLl264, mae'r Comisiynydd wedi parhau i ariannu'r rhaglen droseddwyr ranbarthol, sy'n darparu cyfres o ymyriadau ledled Dyfed-Powys ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig a stelcio. Mae'r rhaglen hefyd yn sicrhau cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr a phlant.

Mae'r buddsoddiad ar y cyd ar draws y bartneriaeth ers 2021/22 yn sicrhau bod y rhanbarth yn derbyn cynnig ymyriad troseddwyr cyson a hygyrch o safon uchel.

Mae partneriaid strategol allweddol wedi cyfrannu at ariannu'r prosiect hwn a gofynnwyd i'r CHTh gyfrannu £19,850.00 yn 2024/25.

O fis Ebrill 2025, cynhelir y rhaglenni o dan gytundeb unigol a fydd yn cael ei gaffael gan SCHTh ar ran y Bartneriaeth. Bydd yn sicrhau rheolaeth perfformiad cadarn o'r canlyniadau a gyflwynir gan y gwasanaeth.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £19,850 o Gyllideb Cronfeydd Wrth Gefn y Comisiynydd i gefnogi'r rhaglen droseddwyr ranbarthol a'i gwaith.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 20/03/25**